
# System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

## Cylchlythyr System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu
## Hydref 2020

### Hyfforddeion a Chofrestryddion Meddygon Teulu

Yn ystod y cylch dilysu data diweddaraf, cafodd yr holl hyfforddeion a chofrestryddion meddyg teulu eu tynnu o'r WNWRS. Gwnaed hyn yn dilyn adborth gan reolwyr practisiau bod diweddaru cofnodion cofrestryddion yn barhaus yn feichus o ran amser. Gallwn gael y data hyn o ffynhonnell wahanol i fwydo'r modiwl adrodd ac mae Cronfa Risg Cymru yn ymdrin â phob hyfforddai at ddibenion GMPI.

**Peidiwch â** nodi unrhyw Gofnodion Staff newydd ar gyfer unrhyw hyfforddeion na chofrestryddion meddygon teulu. Os oes gennych chi hyfforddeion a chofrestryddion meddyg teulu o hyd ar Dabl Staff eich Practis, cysylltwch â ni drwy'r e-bost isod.



### **Canolbwyntio ar**: Data Fferylliaeth

Rydym yn cydnabod ac yn deall bod rheolwyr practisiau dan bwysau cynyddol yn ystod yr adeg ansicr ac anodd hon. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i helpu a lleihau'r gwaith y mae angen i chi ei wneud ar yr WNWRS ar lefel y practis.

Gyda hyn mewn golwg, yn ystod y cylch dilysu data diweddaraf, cofnodwyd rhifau GPhC ar gyfer yr holl Staff Fferylliaeth nad oedd ganddynt rifau cofrestru, ar gyfer pob practis ledled Cymru.

**Y Camau i'w Cymryd** Gwiriwch fod y rhifau GPhC yn gywir ar gyfer eich Staff Fferyllfa a diweddarwch unrhyw rifau anghywir neu sydd ar goll.

### Cyhoeddiad am Weithlu'r Practisiau Cyffredinol

Isod ceir dolen i'r cyhoeddiad Ystadegau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar Weithlu'r Practisiau Cyffredinol, a ryddhawyd ar 29 Hydref 2020.

Gweithlu'r Practisiau Cyffredinol: ar 30 Mehefin 2020 https://llyw.cymru/gweithlu-practis-cyffredinol-ar-30-mehefin-2020

Daw'r data hyn yn uniongyrchol o'r WNWRS ac oherwydd eich ymdrechion chi a chywirdeb y data rydych chi'n eu darparu, mae ansawdd yr wybodaeth yn parhau i wella pan fyddwn yn ei lawrlwytho bob chwarter.




### Gweld yr WNWRS

Ydych chi'n cael trafferth gweld yr WNWRS? A yw'n rhy fach ar eich sgrin?

Trwy wasgu ar y fysell Control (Ctrl) a defnyddio olwyn eich llygoden, gallwch sgrolio i mewn ac ehangu'r sgrin i'ch maint dewisol.

Gallwch hefyd newid faint o gofnodion a ddangosir yn yr adran Trosolwg Staff trwy glicio ar y gwymplen yn yr ardal 'Show Rows', a ddangosir isod:




Locum Hub Wales by GPWales

**PEIDIWCH AG ANGHOFIO** cofrestru fel Defnyddiwr a Alluogir gan y Practis ar Locum Hub Wales – yr ateb i holl anghenion locwm eich practis.

https://locumhubwales.co.uk/

### Pam archebu meddygon teulu locwm trwy Locum Hub Wales?

Mae practisiau ledled Cymru yn dweud bod llawer o fuddion uniongyrchol a chadarnhaol wrth ddefnyddio Locum Hub Wales. Mewn un achos yn benodol, dim ond ychydig o feddygon teulu locwm dethol y bu practis yn eu defnyddio gan mai dyma'r unig rai yr oedd y practis yn ymwybodol ohonynt. Nid oeddent yn gwybod bod sawl meddyg teulu arall yn barod i weithio yn eu practis. Dim ond pan wnaethant fewngofnodi a dechrau defnyddio Locum Hub Wales y cawsant eu hysbysu bod nifer o feddygon teulu ar gael iddynt, nad oeddent yn ymwybodol ohonynt o'r blaen. Dyma un enghraifft yn unig o'r nodweddion a'r buddion a ddaw wrth ddefnyddio'r gwasanaeth newydd gwych hwn.